# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

## Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 21 Mai 2019, 12.00–13.30**
Lleoliad: Neuadd, y Senedd, Bae Caerdydd

### Yn bresennol

| **Enwau aelodau'r Grŵp** | **Sefydliad** | |
|---|---|---|
| John Griffiths AC | *Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol,* Llafur Cymru. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | JG |
| Llyr Gruffydd AC | Plaid Cymru. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | |
| Huw Irranca-Davies AC | Llafur Cymru. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | HID |
| Jenny Rathbone AC | Llafur Cymru. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | |
| Nick Ramsay AC | Y Ceidwadwyr Cymreig. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | |
| Alun Davies AC | Llafur Cymru. **Aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol.** | |
| Leanne Wood AC | Plaid Cymru. | |
| David Rees AC | Llafur Cymru | |
| Adam Price AC | Plaid Cymru | |
| Eluned Morgan AC | Llafur Cymru | |
| | | |
| Liz Smith | *Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol* - Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Karen Whitfield | *Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol* - Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| | | |
| Rhys Evans | RSPB | |
| Billie Jade Thomas | RSPB | |
| Deio Gruffydd | RSPB | |
| Carly Jones | RSPB | |
| Laura Cropper | RSPB | |
| Arfon Williams | RSPB | AW |
| Andrew Tuddenham | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | |
| Rhodri Evans | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | |
| Natalie Buttriss | Coed Cadw | |
| Jerry Langford | Coed Cadw | |
| Llinos Price | Coed Cadw | |
| Paula Keen | Coed Cadw | |
| Shea Buckland-Jones | WWF | |
| Alex Phillips | WWF | |
| Rachel Sharp | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| James Byrne | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Sinead Lynch | Ymddiriedolaeth Cadwraeth y Gacynen | |
| Claire Dinham | Buglife | |
| Richard Garner Williams | Cadwraeth Eogiaid a Brithyll Cymru | |
| | | |
| **Siaradwyr / Gwahoddedigion** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Tony Davies | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar (Henfron, Cwm Elan) | TD |
| Polly Davies | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar (Fferm Slade) | PD |
| Glasnant Morgan | Agrofforestydd (Fferm Pwllyrhwyaid) | GM |
| | | |
| **Unigolion allanol a oedd yn bresennol** | **Sefydliad**<br>**Noder:** *Mae hyn yn cynnwys aelodau amrywiol o'r Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar, er nad yw'r aelodau unigol wedi'u nodi.* | |
| Linda Morgan | Fferm Pwll | |
| Teona Dorrien-Smith | Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | |
| Tony Harrington | Dŵr Cymru | |
| Nigel Robins | Cynghorwr Coed Cadw | |
| Gwyn Jones | Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Phori | |
| Alwyn Edwards | Asiant Creu Coetir Glastir | |
| Dave Ashford | Llywodraeth Cymru | |
| Geraint Jones | Cyswllt Ffermio | |
| Keri Davies | Fferm Glwydcaenewydd | |
| Charlotte Priddy | Undeb Amaethwyr Cymru | |
| Glyn Roberts | Undeb Amaethwyr Cymru | |
| Ludivine Petetin | Prifysgol Caerdydd | |
| Malcolm Horne | Severn Trent | |
| Amelia Unity | Artist | |
| Rebecca Williams | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru | |
| Steven Jacobs | Ffermwyr a Thyfwyr Organig | |
| Abi Reader | Fferm Goldsland | |
| Sarah Wood | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Sarah Hetherington | Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Patrick Holden | Yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy | |
| Neil Parker | Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol | |
| Katy Orford | Ymchwil y Senedd | |
| Haydn Evans | Cymdeithas y Pridd | |
| Matthew Vaughan | Fferm Nantyfelin Uchaf | |
| Rachel Lewis-Davies | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr | |
| Sorcha Lewis | Troedrhiwdrain, Cwm Elan | |
| Geraint Jones | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | |
| Sioned James | Staff Plaid Cymru | |
| Vic Warren | YDCW / Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | |
| Melanie Newton | Di-ddofi Prydain / O'r Mynydd i'r Môr | |
| Penny Lewns | Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol | |
| Diana Clark | Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol | |
| Robyn Evans | Newsdirect Cymru | |
| Sam Robinson | Landworkers Alliance | |
| Lorna Davies | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr | |

## Pwyntiau allweddol sy'n deillio o'r Cyfarfod

### 1) Sylwadau agoriadol

Agorodd John Griffiths AC y digwyddiad ac eglurodd ein bod yn wynebu heriau enfawr o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi argyfwng o ran hinsawdd ac un o'r ffyrdd y gall Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid drafod y materion hyn yw drwy'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth, yr oedd yn gobeithio ei ailsefydlu yn ystod y cyfarfod hwn.

Gohiriwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan ar ôl i'r Aelodau Cynulliad eraill gyrraedd.

**2) Beth yw nwyddau cyhoeddus? Sut bydd y rhain yn cyd-fynd â pholisi rheoli tir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol?**

I gychwyn y digwyddiad, cyflwynodd JG fideo yn dangos ffermwyr sy'n hoff o natur yn trafod y camau maen nhw wedi'u cymryd ar eu tir eu hunain i wella cynefin ac i weithio gyda natur.

Ar ôl y fideo, eglurodd JG ein bod yn wynebu her enfawr, gan fod mwy na miliwn o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu yn fyd-eang. Dywedodd fod angen dulliau gweithredu newydd a ffres arnom, a bydd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, yn gwneud datganiad arall ar ddatblygu syniadau ar gyfer cynllun rheoli tir newydd yn ystod Sioe Frenhinol Cymru eleni. Roedd JG yn gobeithio y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth yn un o'r ffyrdd i bobl ymgysylltu o ran polisi yn y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at ei gydweithiwr, Huw Irranca-Davies AC, sydd hefyd yn awyddus iawn i ymgysylltu â'r grŵp newydd.

Dywedodd JG ei bod yn bwysig datblygu'r ymgysylltiad ardderchog y mae Aelodau'r Cynulliad wedi'i gael drwy brosiect Hyrwyddwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru. Cyfeiriodd JG at ei rywogaeth ei hun, y llygoden ddŵr, ac at rywogaeth Huw, sef y gornchwiglen. Dywedodd y gall y Grŵp Trawsbleidiol ysgogi ymgysylltiad ag Aelodau'r Cynulliad, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff anllywodraethol amgylcheddol a hefyd, yn bwysig iawn, ffermwyr. Nododd JG fod cynnwys y rhai sy'n rheoli ein tir yn arbennig o bwysig os ydym am weithredu'n effeithiol wrth fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Dylem edrych ar y rhai sy'n gosod esiampl dda ac sydd eisoes yn rheoli eu tir mewn ffyrdd sy'n cynhyrchu nwyddau cyhoeddus.

Cyflwynodd JG Arfon Williams, Rheolwr Defnydd Tir RSPB Cymru, a dynnodd sylw'n sydyn at bapur briffio Cyswllt Amgylchedd Cymru, sef 'Sustainable Land Management Vision and Public Goods', y gallai'r rhai a oedd yn bresennol fynd â chopi ohono adref gyda hwy. Mae'r gwaith hwn yn dangos y gefnogaeth draws-sectoraidd ar gyfer newid, a mynegodd yr holl ffermwyr a rheolwyr tir a oedd yn bresennol ddiddordeb pendant. Eglurodd AW y dylai'r weledigaeth a'r papur briffio roi syniad i'r rhai a oedd yn bresennol o beth yw nwyddau cyhoeddus a'r hyn y mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol yn credu y gellir ei gyflawni. Diolchodd AW i Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar am ddod at ei gilydd i drefnu'r digwyddiad, ac i JG am gadeirio, ac i bawb am ddod.

Cyflwynodd JG y siaradwr cyntaf, sef Tony Davies o fferm Henfron, a Chadeirydd y Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar yng Nghymru.

**3) Tony Davies, Fferm Henfron - Cadeirydd y Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar**

Esboniodd TD ei fod yn tueddu i osgoi cwestiynau am yr hyn y mae'n ei gynhyrchu. Yn y gorffennol, pe gofynnwyd y cwestiwn hwn i'w dad, byddai wedi dweud ei fod yn ffermio defaid. Gwnaeth ei dad dreblu ei ddiadell er mwyn gwella proffidioldeb ei fusnes, ond roedd ffermio ŵyn yn ddrud, yn enwedig o ganlyniad i'r ffaith bod angen llawer o fwyd wedi'i fewnforio.

Pan ddaeth Tony'n gyfrifol am y busnes, newidiodd i gynhyrchu'n organig, a chwtogi 65 y cant ar y ddiadell. Canfu fod cyfanswm gwerth y gwerthiannau wedi gostwng o 25 y cant yn unig. Roedd ffermio fel hyn mewn gwirionedd yn fwy proffidiol fesul pen o ddefaid oherwydd byddai angen llai o lafur ac ni

fyddai angen mewnforio bwyd bellach. Mae TD yn rhan o gynlluniau Glastir Organig a Glastir Uwch. Mae'n cynhyrchu cig o ansawdd uchel fel sgil-gynnyrch o ganlyniad i'r ffordd y mae'n rheoli ei dir. Mae hefyd yn storio carbon yn y corsydd mawn ar ei fferm, ac mae 300,000 tunnell o garbon yn cael ei gadw ynddynt. Nododd TD ei fod hefyd wedi gwella bioamrywiaeth ei gorsydd, a bod rhagor o bryfed ac adar yn byw ar y fferm drwyddi draw o ganlyniad i hyn a newidiadau rheoli eraill.

Mae TD yn hoffi cefnogi'r coed ar ei dir, ac mae 50,000 o goed ar y fferm. Byddai'n hoffi plannu rhagor ond mae yna gyfyngiadau, am fod rhan o'i dir wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae'r gweddill wedi'i ddynodi'n gynefin mynydd agored. Gwelodd TD gyfleoedd hefyd i gael ei dalu i reoli'r tir, drwy sicrhau ei fod yn parhau i weithredu fel hidlydd dŵr. Eglurodd nad yw ei fferm yn cael ei thalu am hyn ar hyn o bryd, ond mae pobl Birmingham yn dibynnu ar ddŵr sy'n syrthio ar ei dir.

Oherwydd newidiadau yn y drefn reoli, mae rhygwellt a gweirgloddiau bellach yn tyfu o'r newydd yn y caeau, ac mae gwelliant sylweddol o ran amrywiaeth pryfed a phlanhigion. Dywedodd y bu cynnydd yn sicr o ran bywyd gwyllt o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed. Nododd pa mor bwysig yw cael anifeiliaid sy'n pori er mwyn cynnal rhai o'r cynefinoedd hyn. Maent hefyd yn cynhyrchu cig eidion, cig dafad a chig oen fel sgil-gynnyrch o reoli'r tir er budd natur.

Cyfeiriodd TD hefyd at fanteision o ran mynediad i'r cyhoedd o ganlyniad i reoli tir - a chynhaliwyd ras elusennol yn ddiweddar ar ran o'i dir er mwyn codi arian i elusen ganser. Gellir cefnogi hyn drwy gynllun nwyddau cyhoeddus hefyd, sy'n fudd pwysig i'r gymuned. Ychwanegodd fod mynediad at natur yn bwysig i iechyd a lles y cyhoedd, am fod poblogaeth iachach yn gosod llai o faich ar y GIG. Ar hyn o bryd, rydym yn gwario llawer rhagor ar iechyd nag ar reoli tir, ond mae TD yn credu ei bod yn werth buddsoddi arian ynddo.

Mae TD yn disgrifio ei hun fel dyn busnes yn gyntaf oll, ond mae'n teimlo bod stigma yn gysylltiedig â ffermio gwyrdd. Mae cymorthdaliadau yn annog ffermwyr yn gyson i gynhyrchu rhagor , ni waeth beth fo'r proffidioldeb. Mae'n bwysig newid y ffordd hon o feddwl. Hefyd cododd TD y mater, o ran ffermwyr sy'n denantiaid, nad oes dim byd sy'n digalonni mwy arnynt na chymryd rhan mewn cynllun amgylcheddol, ac yna eu bod yn gorfod talu  rhent uwch, gan fod hyn yn lleihau'r elw a wneir gan y rhai sy'n cyflawni ar lawr gwlad.

Wrth gloi ei sylwadau, diolchodd JG i TD, a dywedodd fod ei gyflwyniad yn sicr wedi rhoi llawer inni feddwl amdano. Cyflwynodd y siaradwr nesaf, sef Glasnant Morgan o Fferm Pwll.

**4) Glasnant Morgan, Fferm Pwll - Agrofforestydd**

Disgrifiodd GM ei hun fel ffermwr ail genhedlaeth sy'n caru coed, ac mae'r angerdd hwnnw'n dyddio'n ôl blynyddoedd lawer i'r adeg pan brynodd goeden ywen arbennig. Dywedodd, yn yr 1990au, y cafwyd problemau ariannol ar fferm ei dad, ond gwnaethant ddatrys y rhain drwy rannu busnes y fferm. Mae maint y fferm wedi cynyddu dros y blynyddoedd, ac mae nifer o hen goed yn tyfu arni, gan gynnwys coeden hynafol enwog a welwyd ar y rhaglen deledu Countryfile. Mae coed hynafol yn wych ar gyfer pryfed.

Dywedodd GM ei fod yn defnyddio dull tocio, sy'n dechneg ddefnyddiol ar gyfer rheoli coed ar ei dir. Maent wedi gwella dros 100 erw o brysgwydd. Dangosodd GM y gellir cynyddu coetir drwy adfywio naturiol - nid oes angen plannu o'r newydd bob amser. Fodd bynnag, gall gwiwerod llwyd wneud niwed difrifol i goed, yn enwedig rhai newydd, ac maent wedi dioddef o hyn ar ei dir. Mae GM wedi plannu llawer o wrychoedd gyda chymorth cynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli - mae'r rhain yn cynhyrchu llawer o fwyd, ac yn gysgodfeydd i adar.

Nododd GM fod ei fab yn adeiladu waliau gyda cherrig a adferwyd ar hyn o bryd ar y fferm. Nid yw llawer o bobl yn gwerthfawrogi faint o waith sy'n gysylltiedig â hyn, na'r gwaith sy'n gysylltiedig â phlygu gwrych, ond ar wahân i'r hwb i fywyd gwyllt, mae'r rhain yn enghreifftiau o sgiliau gwledig pwysig.

Yn hytrach na llosgi pren wedi'i dorri o wrychoedd, fel y mae llawer o ffermydd yn ei wneud, mae GM yn defnyddio'r rhain i greu pentyrrau ar gyfer cynefinoedd i ddraenogod, er mwyn caniatáu iddynt guddio rhag creaduriaid ysglyfaethus. Mae'r toriadau hefyd yn danwydd ar gyfer boeleri biomas y fferm, sy'n cynhesu'r fferm gyfan.

Mae'r fferm yn gynefin i forgrug coed, ac mae clychau'r gog a'r gwyddfid yn tyfu ar yr ardaloedd coetir. Maent hefyd wedi plannu derw coch a 30 rhywogaeth wahanol o gelyn. Mae GM yn berchen ar ferllan hefyd, ac mae gan ei frawd fusnes cysylltiedig sy'n gwasgu'r afalau o'i fferm. Maent hefyd yn cynnal teithiau fferm ac mae'r holl gynnyrch cysylltiedig â'r bywyd gwyllt amrywiol wedi sicrhau bod y fferm yn broffidiol, sy'n amlwg am eu bod yn gallu talu o'u pocedi eu hunain i blannu coed tir parc.

Diolchodd JG i GM a chyflwynodd y siaradwr nesaf, sef Polly Davies o Fferm Slade.

**5) Polly Davies, Fferm Slade - Ffermwr sy'n Gyfeillgar i Natur**

Disgrifiodd PD ei busnes fferm hynod amrywiol. Mae ganddi 150 o wartheg, 450 o famogiaid, yn ogystal â geifr ifanc. Mae ganddi fusnes cigyddiaeth fferm ac mae'n danfon cig o amgylch Bro Morgannwg. Mae hefyd yn gwerthu llysiau organig yn lleol. Mae gan Fferm Slade faes gwersylla hefyd.

Er gwaethaf yr amrywiaeth hwn, mae Fferm Slade yn parhau i ddibynnu ar gymorthdaliadau'r llywodraeth, gan gynnwys y Cynllun Taliad Sylfaenol, y cynllun organig, a chynllun Glastir. Dywedodd PD ei bod yn dibynnu ar y Cynllun Taliad Sylfaenol ond nid yw'n cytuno ag ef fel cymhorthdal. Nid yw'n helpu ffermwyr i gynyddu bywyd gwyllt ar eu ffermydd. Mae oddeutu hanner y ffermydd yn gwneud colled neu byddent yn gwneud hynny oni bai am y cymhorthdal hwn. Mae ffermio yn y DU yn heriol ac yn ddrud oherwydd y prisiau uchel tir a llafur. Gall ffermwyr reoli eu tir mewn modd ecogyfeillgar dim ond os yw hynny'n broffidiol. Mae bod yn effeithlon (o ran defnyddio pob darn o dir i gynhyrchu) yn gwneud i natur ddiflannu am nad oes unrhyw le ar ôl i greaduriaid fyw. Mae angen inni werthfawrogi natur fel nwydd y mae angen buddsoddi arian ynddo.

Er enghraifft, mae'n llai effeithlon gadael chwyn a chynefin i fywyd gwyllt ond mae'r cynnyrch naturiol yn parhau i fod yn sylweddol. Mae bywyd gwyllt yn weladwy ledled Fferm Slade, ond mae hyn wedi digwydd drwy gymorth cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn unig. Dywedodd PD ei bod yn hen bryd inni

flaenoriaethu cyfoeth naturiol Cymru. Mae angen i ffermwyr fod yn rhan o'r ateb, ond nid elusennau mohonynt, ac ni allant fforddio bod yn rhan o drafodaethau polisi yn yr un modd. Er mwyn sicrhau bod busnesau yn llwyddo, mae angen gwerthfawrogi cyfoeth naturiol yn briodol. Cadarnhaodd PD y bydd ffermwyr yn manteisio ar y cyfle pe bai hynny'n talu'r ffordd.

Diolchodd JG i'r holl siaradwyr ac estynnodd y drafodaeth i'r llawr.

**6) Sesiwn holi ac ateb**

Gofynnodd Huw Irranca Davies AC beth yr hoffai ffermwyr ei gael sy'n sylweddol wahanol i'r ffordd y mae pethau'n cael eu rheoli ar hyn o bryd?

Gofynnodd Glasnant Morgan am ragor o werthfawrogiad gan Lywodraeth Cymru wrth gynnal cynlluniau a rhoddodd enghraifft o broblem a gafodd pan yr oedd wedi dechrau gwaith plannu gan ymuno â chynllun Adfer Coetir Glastir yn dilyn hynny er mwyn parhau â'r gwaith plannu. Cafodd ei gyhuddo wedyn o gael ei ariannu ddwywaith a bu'n rhaid iddo ad-dalu'r arian gyda dirwy. Mae'r math hwn o ddryswch yn debygol o annog ffermwyr i beidio ag ymuno. Mae ffermwyr yn awyddus i gynnig atebion ond mae angen cynnig cymhelliant ar gyfer pethau nad ydynt wedi'u cefnogi ar hyn o bryd gan gynlluniau sydd eisoes yn bodoli, fel ffyrdd o reoli'r tir i fynd i'r afael â llifogydd.

Awgrymodd Polly Davies mai syniad arall fyddai cynnig cymhelliant i ffermwyr dyfu eu porthiant eu hunain, fel ffa a grawnfwydydd. Byddai hyn yn golygu arallgyfeirio oddi wrth glaswellt, ac  na fyddai angen mewnforio cymaint o fwyd, ac yn arbed arian i ffermwyr a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Mae cynllun Glastir Uwch dim ond yn cynnig cymhorthdal ar gyfer grawnfwydydd y gwanwyn. Awgrymodd hefyd y gellid holi ffermwyr am syniadau gan eu bod weithiau wedi'u hynysu o'r ddadl.

Roedd TD o'r farn bod achos o blaid monitro'n well ac mewn modd mwy effeithlon. Mae'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar ei dir yn cael eu harolygu, ond nid y tir o'i amgylch. Gallai ffermwyr helpu â'r gwaith monitro hyn eu hunain.

Esboniodd Patrick Holden, Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy fod angen cynnig ffon yn ogystal â moronen. Er enghraifft, dylid cymell ffermwyr i gynyddu lefelau carbon y pridd, a dylid codi dirwy arnynt am ddefnyddio gwrteithiau nitrogen, sy'n prysur ddiraddio ein priddoedd. Ar hyn o bryd, y gwrteithiau hyn yw'r rhai mwyaf cost-effeithiol i'w defnyddio, felly mae angen newid hyn (yn hytrach na'u gwahardd).

Roedd Sam Robinson o'r Landworkers Alliance o'r farn bod y cynlluniau a gynigir ar hyn o bryd ychydig yn naïf, a phwysleisiodd bod angen sicrhau y bydd newid mor fawr yn cael ei wneud yn y ffordd gywir er mwyn rhwystro ffermydd rhag cau. Sut allwn ni weithredu hyn mewn ffordd sy'n gadarnhaol?

Atebodd TD, gan nodi bod newid yn anochel a bod yn rhaid i ffermwyr fod yn rhan o'r ateb ac yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau newydd. Ychwanegodd PD, os yw pobl yn darllen y cynigion newydd yn fanwl, gallant weld bod hyn cael ei ystyried. Roedd hi o'r farn bod Llywodraeth Cymru yn deall hyn, ac yn poeni y bydd ffermwyr yn mynd yn fethdalwyr. Heriodd safbwynt yr undebau ffermio mewn perthynas â hyn, a chredai ei bod yn bosibl cydweithio i ddatblygu cynllun newydd sy'n gweithio i ffermwyr ac i fyd natur.

**7) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cafodd y CCB ei ohirio nes i'r siaradwyr a'r drafodaeth orffen, er mwyn sicrhau presenoldeb cynifer o Aelodau'r Cynulliad â phosib.

Gofynnodd JG i'r Aelodau Cynulliad a oedd yno, i gadarnhau eu bod am ailsefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth. Roedd yr Aelodau Cynulliad wedi cael gwybod cyn y cyfarfod fod JG yn gobeithio ailsefydlu'r Grŵp, er nad oedd wedi cyfarfod llawer dros y 12 mis blaenorol, am fod y cadeirydd wedi newid. Fel amcan, roedd y Grŵp Trawsbleidiol yn bwriadu parhau â: 'hyrwyddo a phledio achos Bioamrywiaeth yng Nghymru'.

Cynigiodd Llyr Gruffydd AC JG fel Cadeirydd; Cytunodd Nick Ramsay AC, Jenny Rathbone AC, Alun Davies AC a Huw Irranca-Davies AC.  Cynigiodd JG Gyswllt Amgylchedd Cymru fel yr ysgrifenyddiaeth; dywedodd pawb a oedd yn bresennol eu bod yn fodlon i Gyswllt Amgylchedd Cymru barhau yn y rôl hon.

Ni enwebwyd unrhyw Is-gadeirydd/Is-gadeiryddion